Bitesize

# Loci a gwneud lluniadau

| | |
|---|---|
| MRS JONES | Sbïa! Ti wedi'i blannu o’n rhy agos a rŵan mae o wedi tyfu, alla i ddim agor y ffenest!<br><br>Dw i’n mynd i’r bingo. Erbyn i mi ddod yn ôl, dw i eisiau’r goeden yna o leiaf wyth metr i ffwrdd o wal gefn y byngalo! |
| JON | Iawn, Mrs. Jones. |
| MRS JONES | Ond dw i eisiau iddo fod yn gytbell o’r ffens gefn a’r ffens ochr sy’n gwahanu’r ddwy ardd. |
| JON | Iawn, Mrs Jones. |
| MRS JONES | A, dw i eisiau gwely blodau un pwynt pum metr o led o amgylch gwaelod y goeden. |
| JON | Beth bynnag ydych chi eisiau, Mrs. Jones. |
| AL GEBRA | Dw i wedi plannu tipyn o bethe dros y blynyddoedd – gan gynnwys tystiolaeth – ond roedd teimlad gyda fi bod Jon fan hyn yn methu gweld y coed am brennau. |
| JON | Ym, pwy ydych chi? |
| AL GEBRA | Al yw’r enw. Ditectif Preifat. Roedd hi’n amser rhoi stop ar y dwli loci yma cyn i drosedd arall gael ei chyflawni. Bant â’r cart!<br><br>Roedd yr ardd yn un deg dau metr o led ac un deg pedwar metr o hyd. Darluniais i linell yn baralel i’r wal gefn, sydd wyth metr i ffwrdd. Roedd rhaid gweithio mas lle'r oedd yn gytbell o’r ffens ochr a’r ffens gefn, a haneru’r ongl. Plannais i gwmpas yn y gornel, a gwneud dau arc ar y ddwy ffens. |
| JON | Y? |
| AL GEBRA | Wedyn, rhoddais i fe ar un o’r arcau, bang, reit ar ei drwyn e - a darlunio arc mawr ar draws yr ardd i gyd. Ar |


© Copyright 2016

ôl i mi wneud croestoriad gyda'r arc mawr. Yna dyna i gyd oedd ar ôl i mi ei wneud oedd cael pethau'n syth. Llinell gyflym o gornel y ffens i groestoriad yr arcau a - bingo!

Reit te boi - pala!

Roedd rhaid i mi weithio'n glou, cyn i'r hen Mrs. Jones ddod yn ôl a dechrau busnesan.

Un pwynt pum metr, hy?

Doedd dim rhyw lawer o siâp ar ei waith e, ond mae ei drwyn e'n gweithio'n iawn!

MRS JONES — Hmm, ddim yn ddrwg. Dyweda, pwy yw'r pishyn yma?

AL GEBRA — Cês wedi cau.


© Copyright 2016